PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

ARHOLIADAU EXAMINATIONS

ARHOLIADAU GRADD, SEMESTER 1

IONAWR 2010

ADDYSG

LEFEL 3

PAPUR: ED30220 PSYCHOLOGY OF LEARNING AND THINKING

AMSER: TAIR AWR

ATEBWCH DRI GWESTIWN

1. Trafodwch syniadau Vygotsky ynghylch y 'parth datblygu procsimol' a 'sgaffaldwaith' a'u goblygiadau i athrawon.

2. Trafodwch yn feirniadol Ddamcaniaeth Aml-Ddeallusrwydd Howard Gardner, a'i gwerthuso. Mae gan y ddamcaniaeth honno oblygiadau i'r dosbarth. Sut?

3. Beth yw prif nodweddion llefaredd a gyfeirir at y plentyn? Trafodwch bwysigrwydd y nodweddion hynny yn feirniadol.

4. Trafodwch yn fanwl nodweddion Anhwylder Gorfywiogrwydd Diffyg Canolbwyntio (AGDC / *ADHD*). Defnyddiwch y drafodaeth honno i ddangos sut mae damcaniaethau datblygu gwybyddol ar y cyfan yn methu â rhoi sylw i anghenion unigol.

5. Trafodwch yn feirniadol Ddamcaniaeth Ymlyniad Etholegol John Bowlby.

6. Trafodwch yn gryno Ddamcaniaeth Ymlyniad Mary Ainsworth, a chloriannwch y ddamcaniaeth yn feirniadol ac yn fanwl.

7. Trafodwch Ddamcaniaeth Spearman ar Ddau Ffactor Deallusrwydd.

8. Nodwch **dair damcaniaeth** a gynigwyd i esbonio pam mae merched a bechgyn yn chwarae ar wahân, a trafodwch y tair damcaniaeth yn feirniadol.